

Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, 1af o Dachwedd, 2018 yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog

Yn bresennol: Y Cynghorwyr Margaret Griffith, (Cadeirydd); Anwen Jones, (Is gadeirydd); Aled Lloyd Evans; Naomi Jones; William Ifor Hughes; Aled Davies; Ceri Jones; a Thomas Prys Jones a'r Clerc.

1.Ymddiheuriadau.

Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Cynghorwyr Angela Williams, Tegid Jones, Sion Aled Jones; Trefor Wyn Jones, Gareth O Davies, a Sian Angharad Parry.

2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 4ydd Hydref 2018.

Eglurwyd hefyd fod pwyllgor Cynllun Busnes wedi cael ei drefnu ar y 18fed Hydref, ond mai dim ond dau Gynghorydd sef Aled Evans ac Aled Davies a'r Clerc oedd yn bresennol. Felly penderfynwyd bydd angen cynnal cyfarfod Cynllun Busnes arall am 6:30, ar 6ed Rhagfyr, 2018 o flaen y Pwyllgor nesaf.

3. Llofnodwyd cadarnhâd y taliadau BACS gan y Cadeirydd.

4. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.

5. Datgan buddiant personol. Cais cynllunio codi estyniad blaen Trefin, Chwilog.

- Y Cyngorydd Margaret Griffith yn datgan buddiant personol yn rhif 7(b), oherwydd ei bod yn ffrind i'r ymgeisydd.

6. Cyngor Gwynedd

i) Cefnogaeth Gorfforaethol; Uned Gyfathrebu ac Ymgysylltu, Pa wasanaethau sy'n bwysig i chi?- dyddiad cau i gwblhau'r arolwg ar wefan Cyngor Gwynedd yw 2 Tachwedd 2018, er mwyn dangos barn. Eglurwyd ei bod yn bwysig i bawb gwblhau'r arolwg yma.

ii) Adran Amgylchedd, Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad; Cyfyngiadau Parcio Arfaethedig ger tai Glan y Wern, Chwilog. Y dyddiad cau i dderbyn ymateb gan y tai sydd gerllaw oedd 28 niwrnod ar ol 26ain o Fedi 2018. Roedd y Clerc wedi siarad hefo swyddog o'r Cyngor ond roedd yn rhy fuan iddo allu rhoi sylwadau cyn y cyfarfod. Felly, bydd angen trafod y mater eto fis nesaf. Gofynnwyd am holi barn y Gwasanath Tân, er mwyn iddynt fynd i weld y safle, gan adrodd yn nol atom ni.

iii) Swyddog Cofrestru - Sedd Wag Achlysurol - Ward Llanystumdwy, Cyngor Cymuned Llanystumdwy. Derbyniwyd gwybodaeth gan y Swyddog Cofrestru yn cadarnhau na dderbyniwyd cais am etholiad ar gyfer y sedd uchod. Felly, bydd angen cyfethol aelod newydd, drwy roi rhybudd i fyny i wahodd

datganiad o ddiddordeb. Penderfynwyd rhoi dyddiad cau o 25 o Dachwedd 2018, ar y rhybudd, a bod y Clerc yn ei roi ar yr hysbysfwrdd o flaen Neuadd Llanystumdwy a'i roi yn Y Ffynnon fis Tachwedd.

iv) Grant Cist Gymunedol Gwynedd, Cronfa Chwaraeon Cymru. Trafod y byddai'n syniad rhoi sylw i'r grant yma yn ein colofn yn Y Ffynnon mis Tachwedd, ac mai'r dyddiad cau nesaf oedd 10.02.18. Hefyd, awgrymwyd y byddai'n syniad i'r Clerc anfon manylion am faterion o'r fath i gael ei cynnwys ar wefanau lleol Llanystumdwy, Pencaenewydd a Chwilog.

7. Cyngor Gwynedd - ceisiadau cynllunio yn y gymuned

- a. Cais Rhif C18/0943/41/LL - cais llawn i godi ty preswyl 3 ystafell wely ynghyd â manau parcio cysylltiol; Stâd Cae Capel, Chwilog.
Penderfynu cefnogi.
 - b. Cais Rhif C18/0547/41/LL - codi estyniad blaen; Trefin, Chwilog. Apel yn erbyn gwrthod cais blaenorol.
Derbyn er gwybodaeth.
8. Lwfansau Cynghorydd am Ebrill 2018 ymlaen; un Cynghorydd heb lofnodi.

9. Materion yn y gymuned.

Llanarmon

Llanystumdwy

- Mainc y Cyngor ar y llwybr o Lanystumdwy i Gricieth ger Lodge Ynysgain. Fe gafwyd pris gan Atkin Groundworks Ltd, sef £135.00 & TAW= £162.00. Derbyniwyd caniatâd gan y Cadeirydd i fynd ymlaen â'r gwaith rhag ofn i rywun frifo. Anfonwyd ebost at Adran Priffyrdd i holi beth oedd y canllawiau ynglyn ag ail osod mainc arall mewn man cyfagos. Penderfynwyd gofyn wrth Gyngorydd o Lanystumdwy a'r Clerc i gyfarfod swyddog o Gyngor Gwynedd er mwyn cytuno ar leoliad addas ar gyfer mainc newydd. Trafodwyd y posibilrwydd o gael mainc ym Mhentref Chwilog hefyd, ac i drafod y lleoliad ar yr un pryd.
- Elusen William Ellis - penderfynwyd rhoi hysbyseb yn Y Ffynnon ac o flaen y Neuadd yn Llanystumdwy, a bod y dyddiad cau ar 30ain o Dachwedd 2018.
- Hysbyseb ceisiadau am Gymorth Ariannol gan fudiadau o fewn dalgylch y Cyngor - penderfynwyd rhoi hysbyseb yn Y Ffynnon, yn rhifyn mis Tachwedd a Rhagfyr gyda dyddiad cau 15fed Ionawr 2019.

Rhoslan /Ynys

Chwilog

- Amserlen bws wedi cael ei roi yn Chwilog

Pencaenewydd/Sardis

Llangybi

- Bod un fraich yn eisiau ar yr arwydd ffordd ar Groeslon Pengongl (ger Bronallt), Llangybi. Y Clerc wedi anfon dau ebost at yr Adran Priffyrdd yn holi-disgwyl ateb, felly angen holi eto.

10. **Eisteddfod Genedlaethol** – Cyngor Tref Porthmadog wedi anfon llythyr yn dymuno gwahodd yr Eisteddfod i Llyn ag Eifionydd yn 2021 neu 2025 ac eisiau trafod barn y Cyngor. Penderfynwyd cefnogi, ac i’r Clerc ysgrifennu atynt i’w hysbysu.

11. **Banc Ailgylchu Papur** - Maes Parcio Llanystumdwy

- Derbyniwyd llythyr gan yr Adran Priffyrdd yn egluro bod y banc uchod yn cael ei symud yn ystod yr wythnos yn cychwyn 5ed Tachwedd 2018. Y rheswm oedd oherwydd fod cwmni preifat ‘Palm Recycling Ltd.’ wedi penderfynu codi ffi blynyddol o tua £30,000.00 o rwan ymlaen, lle roedden nhw’n gwneud am ddim yn flaenorol. Penderfynu derbyn er gwybodaeth.

12. Cwrs Un Llais Cymru – Clerc wedi mynychu Cwrs Hyfforddi yn Siambr y Cyngor, Llangefni 30ain o Hydref 2018 rhwng 6:30 – 9:00 yn trafod Modiwl 5, sef gwahanol agweddau o waith ‘Clerc’ - drwy ganiatâd y Cadeirydd. Cost o £40.00 ar gyfer aelodau, - y Clerc am wneud ymholiadau am gael ‘bwrsari’ tuag at gyfran o’r gost.

13. **Deddf Diogelu Data - angen rhoi polisi ar ein gwefan.**

Mae Clerc Cyngor Tref Caernarfon wedi rhoi caniatâd i unrhyw un ddefnyddio eu polisiau nhw ar gyfer ei addasu ar gyfer ein Cyngor ni.

Maent i’w gweld ar safle we Cyngor Tref Caernarfon, mae rhain yn yr adran Polisiau yn y Gymraeg a’r Saesneg. Y Cynghorydd Margaret Griffith a Thomas Prys Jones wedi cytuno i gael golwg arnynt, a’i addasu nhw erbyn ein cyfarfod mis Rhagfyr, er mwyn i Delwedd ei rhoi nhw ar ein gwefan.

14. Comisiwn Ffiniau i Gymru; Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru, Cynigion Diwygiedig. Penderfynu derbyn er gwybodaeth.

15. Adroddiad Blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2018/19, adran 13 sydd yn berthnasol i aelodau o gynghorau tref a chymuned; angen sylwadau erbyn Tachwedd 29ain. Derbyn er gwybodaeth.

Materion Ariannol

16. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a’r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Eglurwyd faint o arian oedd yn y cyfrifon, ac roedd yr adroddiadau banc yn cefnogi’r symiau.

17. Anfonebau angen eu talu:

Enw	Rheswm	Swm £	TAW £	Cyfanswm £	Taliad BACS
Atkin Groundworks Ltd.	Am farbio llwybr Bont Fechan - ail doriad	145.00	29.00	174.00	√
Atkin Groundworks Ltd.	Am symud mainc a concriid a gwneud y safle’n saff ger Bron Eifion,	135.00	27.00	162.00	√

Taliadau siec

Enw	Rheswm	Swm	Taliad siec rhif
Costau'r Clerc y cynnwys:	<p>Rhaglen 'Microsoft Office Professional Plus 2016'</p> <p>2 cabinet 4 dror 'ffeilio' gyda chlo, Cwmni 'Ryman' (£89.99x2) (yn cynnwys TAW o £33.33 yn cynnwys yr eitem isod)</p> <p>1 Paced o ffeiliau 'Ryman' 'suspension' A4-50</p> <p>Costau teitho Cwrs Un Llais Cymru, Llangefni 64 milltir @ 0.45 = 28.80 (30.10.18)</p>	<p>£</p> <p>238.72</p>	100988
Cyflog sylfaenol gros Hydref 2018 y Clerc 35 awr x £9.808 =	343.28 - llai treth £68.66	<u>274.34</u>	100989
Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc	343.00 x 20% = £68.66	<u>68.66</u>	100990
Cyngor Gwynedd	Gwasanaeth Archwilio mewnol	<u>162.00</u>	100991

18. Cyngor Gwynedd – cau ffordd ger Arfryn, Plas Du, Llanarmon.-derbyn.

19. Cyngor Gwynedd – cau ffordd ger Gwag y Noe, Chwilog - derbyn.

“It is possible to get an English translation of any minute, contact the Clerk.”